Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Beaufort Hill
# Beaufort Hill
# Glynebwy
# Blaenau Gwent
# NP23 5QD

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/09/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Beaufort Hill ym mhentref Beaufort ger Glynebwy yn awdurdod lleol Blaenau Gwent. Mae 246 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed. Mae 52 o ddisgyblion yn mynychu'r dosbarth meithrin yn y bore neu'r prynhawn.

Mae bron pob un o'r disgyblion o darddiad Prydeinig gwyn, a Saesneg yw mamiaith bron yr holl ddisgyblion. Mae rhyw 20% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan tua 28% o ddisgyblion, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig o ddisgyblion.

Yn 2010 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd yn Ionawr 2004.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Beaufort Hill yn 2014-2015 yw £4,073. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mlaenau Gwent yw £6,278 a'r lleiafswm yw £3,643. Mae Ysgol Gynradd Beaufort Hill yn safle 16 o'r 24 ysgol gynradd ym Mlaenau Gwent o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran y safonau y maent yn eu cyflawni ac yn eu lefelau lles
- Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o eang o brofiadau dysgu perthnasol a diddorol ar gyfer disgyblion
- Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ac yn cefnogi dysgu effeithiol
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofalu, cynorthwyo ac arwain disgyblion yn llwyddiannus
- Mae'r defnydd pwrpasol o staff cymorth yn un o gryfderau'r ysgol
- Mae staff yn defnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored yn greadigol, gan sicrhau bod yr adeilad a'r safle yn ysgogi dysgu disgyblion yn dda

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth, yr uwch dîm rheoli a llywodraethwyr yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer gwaith yr ysgol
- Mae hanes dibynadwy gan yr ysgol o reoli gwelliannau dros gyfnod
- Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn drwyadl a cheir targedau clir ar gyfer gwella yng nghynllun datblygu'r ysgol
- Mae pob un o'r staff yn gadarnhaol ynglŷn â gwella eu harferion ac maent yn cymryd rhan mewn datblygiad a hyfforddiant proffesiynol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion
- Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda

## Argymhellion

A1 Gwella atalnodi, sillafu a chyflwyniad disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A2 Mireinio cynlluniau'r cwricwlwm i ganolbwyntio ar dasgau pwrpasol

A3 Sicrhau bod athrawon yn herio'r disgyblion mwy abl yn unol â'u galluoedd

A4 Sicrhau bod marcio gwaith disgyblion a strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gyson ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda lefelau medrau a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn gwrando’n astud. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n fedrus ac yn ymateb yn frwdfrydig i’w hathrawon a disgyblion eraill wrth drafod eu gwaith mewn parau, grwpiau ac fel dosbarth cyfan. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn synhwyrol ag oedolion a disgyblion eraill gan ddefnyddio ystod eang o eirfa. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio geirfa soffistigedig i ehangu ar eu trafodaethau yn huawdl. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar drafodaethau grŵp ac yn cyfrannu’n synhwyrol at benderfyniadau cytûn. Maent yn cyfrannu at ddadleuon yn effeithiol ac yn cynnig barnau sy’n procio’r meddwl, er enghraifft ar fywyd Martin Luther King.

Mae medrau darllen bron yr holl ddisgyblion yn datblygu’n dda ac yn unol â’u galluoedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gallu darllen yn fwyfwy rhugl. Maent yn trafod ac yn darllen llyfrau yn gywir, yn synhwyrol a gyda mynegiant da. Maent yn mynegi barnau perthnasol ynglŷn â chynnwys storïau ac yn rhagweld yn fanwl beth mae gwahanol gymeriadau yn debygol o wneud mewn stori. Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau ailddweud storïau, gan gynnwys eu storïau eu hunain. Maent yn actio digwyddiadau ac yn adalw manylion yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen i safon sy’n briodol i’w hoedran a’u gallu, o leiaf. Mae ychydig o ddarllenwyr ym mhob dosbarth yn darllen yn dda iawn. Mae’r rhan fwyaf yn ateb cwestiynau’n synhwyrol ynglŷn â’r mathau amrywiol o destunau y maent yn eu darllen, sy’n cynnwys ffeithiau ar wahanol ddegawdau o’r ugeinfed ganrif, storïau ffuglennol a hunangofiannau chwaraewyr enwog. Maent yn deall diben llyfrau ffeithiol ac yn rhannu’u barnau yn llwyddiannus yn ystod trafodaethau, er enghraifft, yn eu hymchwil ynglŷn â materion ac arbrofion gwyddonol, fel yr amodau sydd eu hangen i facteria dyfu.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n effeithiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu llythyrau a barddoniaeth, yn cofio ffeithiau am blanhigion a brogaod ac yn creu posteri. Mae hyn yn dangos dealltwriaeth dda o ddilyniannu digwyddiadau, adrodd storïau â dychymyg a sut i nodi ffeithiau penodol am destunau arbennig. Maent yn ailadrodd storïau yn gywir yn eu harddulliau ysgrifenedig eu hunain yn electronig ac ar bapur. Maent yn defnyddio mapiau stori i strwythuro eu hysgrifennu creadigol yn synhwyrol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth addas o ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i dyfu tatws, darnau darbwyllol ynglŷn ag effeithiolrwydd dyfeisiau amrywiol, adroddiadau ar yr Ail

Ryfel Byd a darnau o ffuglen anturus.  Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymestyn eu hysgrifennu mewn ffyrdd diddorol, yn creu llyfrynnau ar Gymru ac ymchwilio i ffeithiau rhifiadol am geir sglefrio.  Maent yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn dda yn holl feysydd y cwricwlwm.  Mae sillafu ac atalnodi'r mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gywir ac yn unol â'u hoedran a lefel eu gallu, ond mae'n wan yn ysgrifennu gormod o ddisgyblion yn gyffredinol.  Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn anniben yn gyffredinol, ac mae hyn yn amharu ar ansawdd gwaith y disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen gyfrif, trefnu a dosbarthu rhifau hyd at 20 yn gywir.  Gallant adnabod siapiau yn gywir, fel sgwâr, hirsgwar, triongl a chylch.  Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn mesur amser yn dda wrth fynd i'r afael â heriau ar bellteroedd gwahanol sy'n cael eu teithio, a faint o amser mae'n ei gymryd i wneud hynny.  Mae llawer yn bondio rhifau cyfan â 100 yn llwyddiannus.  Mae llawer yn deall nodweddion siapiau tri dimensiwn yn glir, fel ciwbiau a chiwboidau, wrth ddisgrifio nodweddion gwrthrychau bob dydd fel tuniau a deunydd pacio mewn archfarchnadoedd.  Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gymhwyso cysyniadau mathemategol i ddadansoddi a datrys problemau yn yr holl feysydd dysgu, fel defnyddio cyfeiriadau cwmpawd a chreu cardiau naid.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn ystod o gyd-destunau.  Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio canrannau meintiau yn gywir ac yn esbonio'n glir sut maent wedi cael eu hatebion.  Mae dealltwriaeth gadarn gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o sut i gyflwyno ystod o ddata a'i ddehongli i ddarparu esboniadau a chasgliadau synhwyrol.  Maent yn dewis eu dulliau eu hunain o gofnodi data rhifiadol yn synhwyrol ac yn esbonio'n drwyadl pam maent yn credu mai dyma'r dull mwyaf effeithiol o gyfleu'r wybodaeth a gasglwyd.

Mae safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn Cymraeg yn briodol.  Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cyflawni'n foddhaol mewn gwersi, gan wrando'n briodol ac ymateb o bryd i'w gilydd i sefyllfaoedd gwahanol.  Mae ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn naturiol ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd digonol wrth ddatblygu medrau yn y Gymraeg.

Yn 2014, mae'r ganran o ddisgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer llythrennedd, ac yn y 50% uwch ar gyfer datblygiad mathemategol, o gymharu ag ysgolion tebyg.  Ar y deilliant uwch na'r disgwyl, sef deilliant 6, mae'r ysgol yn y 25% isaf ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol yn 2014.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg.  Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad wedi amrywio mewn mathemateg hefyd, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.  Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol naill ai yn y 50% uwch neu'r 50% is o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.

Ar y lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 5, mae perfformiad disgyblion dros y pedair blynedd diwethaf mewn Saesneg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o ysgolion tebyg.  Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf.  Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol naill ai yn y 50% uwch neu'r 25% isaf yn ystod yr un cyfnod.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn tueddu bod islaw perfformiad disgyblion eraill yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles:  Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd.  Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut i gadw'n iach drwy fwyta'n synhwyrol a gwneud ymarfer corfforol trwy weithgareddau chwaraeon rheolaidd neu weithgareddau eraill.

Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ac maent yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill.  Maent yn gwrtais a pharchus tuag at oedolion a'i gilydd.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol.  Mae arweinwyr ifanc o gyfnod allweddol 2 yn goruchwylio parthau yn synhwyrol ar yr iardiau amser egwyl.  Maent yn cynorthwyo disgyblion iau yn effeithiol drwy ddefnyddio offer chwaraeon a chyfranogi mewn gwahanol weithgareddau.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau sy'n fuddiol i bob disgybl.  Er enghraifft, maent wedi trefnu sesiynau casglu sbwriel ac wedi dewis defnyddio'u cyllideb i ddarparu offer chwarae i'w ddefnyddio gan ddisgyblion amser egwyl.

Mae disgyblion mewn rolau arwain yn cyfathrebu'n effeithiol â disgyblion eraill a chymuned yr ysgol drwy eu rolau ar grwpiau ysgol amrywiol, fel yr arweinwyr digidol, y fforwm presenoldeb a'r 'Criw Cymraeg'.  Mae disgyblion yn cynrychioli'r ysgol yn dda mewn digwyddiadau cymunedol lleol, fel yng ngwasanaeth lleol Dydd y Cofio, perfformiadau côr mewn cartrefi preswyl a'r casgliadau bwyd cydweithredol a dosbarthu bwyd.

Mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol disgyblion wedi tueddu gosod yr ysgol yn y 50% uwch o'i chymharu ag ysgolion tebyg dros y pum mlynedd diwethaf.  Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd da i ddisgyblion sy'n cyfoethogi ac yn gwella eu haddysg.  Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys gan roi pwyslais cadarnhaol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.  Fodd bynnag, mae athrawon yn cynllunio gormod o dasgau mewn llythrennedd a gwaith testun, ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn tasgau penodol.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'u medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o raglenni TGCh ar lechi a gliniaduron i osod data a chreu graffiau yn Cyfnod Sylfaen. Mae cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn rhifedd a llythrennedd yn galluogi'r rhan fwyaf i wneud cynnydd da.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Cymraeg disgyblion yn dda ac mae llawer o staff yn defnyddio Cymraeg yn achlysurol ac yn rheolaidd gyda disgyblion. Ceir cyfleoedd systematig ac effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, ac am hanes a diwylliant Cymru. Mae disgyblion yn ymweld â thirnodau Cymreig a mannau yn y gymuned leol i wella eu profiadau dysgu ymhellach.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol, er enghraifft clwb TGCh, athletau a chlwb aml-sgiliau. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn ystod o ddigwyddiadau chwaraeon, gan roi llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ac i gael profiad o gemau cystadleuol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarnhaol ar draws y cwricwlwm. Mae ganddi gysylltiadau da iawn ag ysgol yn Uganda, gan ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion feddwl fel dinasyddion byd-eang. Ceir pwyllgor eco sydd wedi sefydlu'n dda yn yr ysgol, ac mae wedi ymgymryd â gwelliannau effeithiol, er enghraifft mewn ailgylchu, codi sbwriel ac arbed ynni. Mae'r ysgol yn darparu profiadau cadarnhaol i ddisgyblion dyfu eu llysiau eu hunain ar randir yr ysgol, ac maent yn defnyddio'r rhain i wneud eu cawliau a'u stiwiau eu hunain. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o ffyrdd cynaliadwy o fyw a bwyta'n iach.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell a'u bod yn ymgysylltu'n dda â'u gweithgareddau dysgu. Mae pob un o'r oedolion yn creu awyrgylch gweithio pwrpasol yn yr ystafelloedd dosbarth a'r awyr agored. Maent yn ymateb â diddordeb i atebion disgyblion ac yn rhoi anogaeth effeithiol iddynt. Mae staff cymorth yn cyfoethogi profiadau grwpiau ac unigolion yn gyson dda, ac mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae staff yn rheoli ymddygiad yn dda drwy bennu disgwyliadau clir ynglŷn â beth sy'n dderbyniol. Mae gwersi wedi'u trefnu'n dda ac yn mynd rhagddynt ar gyflymder da iawn. Mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu yn effeithiol â disgyblion. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau ysgogol yn feddylgar. Mae gwybodaeth bynciol gadarn, holi medrus ac amrywiaeth o ddulliau addysgu yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Fodd bynnag, nid yw tasgau a gynllunnir ar gyfer y disgyblion mwy abl yn cynnig digon o her iddynt bob amser, ac nid yw'r gwaith a gynhyrchir gan y disgyblion hyn gystal ag y gallai fod bob amser.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio asesu'n bwrpasol i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl gan ddefnyddio system olrhain electronig. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Fodd bynnag, mae'r marcio yn amrywio gormod o ran ansawdd. Mae'n nodi'r camau nesaf yn nysgu disgyblion trwy dargedau cytunedig ar gyfer gwella, ond mae effaith marcio a strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ac yn bodloni gofynion statudol. Maent yn nodi cyraeddiadau disgyblion yn erbyn y fframwaith llythrennedd a rhifedd ac yn nodi targedau clir ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel a gofalgar a cheir ethos amlwg o barch. Mae'r cymorth a'r arweiniad a gynigir i ddisgyblion yn golygu bod bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod ble i fynd os ydynt yn pryderu neu'n gofidio. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cefnogi'u cyfoedion ac yn chwarae rhan werthfawr yn eu helpu i fynegi'u teimladau. Mae trefniadau priodol yn yr ysgol i hyrwyddo ac annog bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd.

Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd da i ddisgyblion hyrwyddo'u datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol disgyblion, ac yn cefnogi'u dysgu yn bwrpasol. Er enghraifft, bu disgyblion Blwyddyn 2 yn chwarae mewn cerddorfa linynnol yn ddiweddar yn Neuadd Symffoni Birmingham, ac mae holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn canu offerynnau pres, llinynnol a tharo.

Mae'r ysgol yn pennu disgwyliadau clir o ran ymddygiad disgyblion ac mae staff yn hyrwyddo'r rhain yn gyson ym mhob dosbarth. Mae'r ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw ddigwyddiadau prin o fwlio.

Ceir systemau effeithiol ar gyfer nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u gwaith. Mae staff yn cynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth yn dda, a cheir cysylltiadau da ag asiantaethau allanol arbenigol. Mae athrawon yn arfarnu ac yn diweddaru cynlluniau addysg unigol yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni a gofalwyr yn llawn yn y broses. Mae targedau yn glir ac mae disgyblion yn gallu manteisio'n llawn ar holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn dda iawn i gefnogi'r addysgu ac i ddarparu rhaglenni ymyrraeth effeithiol er mwyn helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd pan fyddant ar ei hôl hi. Mae gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni gofynion statudol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned fywiog gydag awyrgylch cynnes, teuluol. Mae staff yn annog disgyblion i drin disgyblion eraill â gofal ac i ddangos parch iddynt, beth bynnag yw eu rhyw, hil neu gefndir, ac mae hyn yn sicrhau ethos cynhwysol.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a sicr. Ceir trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion, yn ogystal ag annog cyfranogiad pob disgybl yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae amgylchedd yr ysgol yn lân a threfnus. Ceir ystod dda o adnoddau yn holl ardaloedd yr adeilad i gefnogi dysgu disgyblion yn dda. Mae arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu ac yn dathlu gwaith disgyblion yn gyffredinol. Mae trefniant synhwyrol y grwpiau blwyddyn yn effeithiol.

Mae adnoddau dysgu yn yr awyr agored yn cyfoethogi dysgu disgyblion ac yn hyrwyddo gweithgareddau difyr a chyffrous. Mae ardaloedd awyr agored ysgogol iawn gan yr ysgol, sy'n ehangu profiadau dysgu disgyblion yn ddychmygus. Maent yn darparu mannau dysgu hyblyg, gan alluogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol yn eu dysgu eu hunain.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth sydd newydd ei ffurfio yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol. Maent yn gweithio'n dda â'i gilydd ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir â ffocws o'u rolau a'u cyfrifoldebau i wella gwaith yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn rhannu nodau clir, cytûn ar gyfer gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'r tîm yn sicrhau bod ffocws clir ar gyflawniadau disgyblion ac ar gynnydd tuag at fodloni blaenoriaethau datblygu'r ysgol.

Mae cyfarfodydd rheolaidd o'r holl staff a'u cyfranogiad gweithredol yng nghynlluniau datblygu'r ysgol yn darparu cyfleoedd da iddynt gyfrannu at lywio cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae pob aelod o staff yn llwyr ymwybodol o bolisïau ac arferion newydd ac maent yn cyfranogi'n frwd mewn cyfarfodydd staff rheolaidd sydd wedi'u strwythuro'n dda.

Mae arweinwyr yn herio ac yn cefnogi staff yn bwrpasol i wella eu harfer eu hunain trwy gyfarfodydd rheoli perfformiad sefydledig ac adolygiadau blynyddol. Maent wedi rhoi ystod o fentrau newydd ar waith yn llwyddiannus ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, ac yn fwyaf nodedig drwy ailstrwythuro'r ddarpariaeth ar gyfer mathemateg er mwyn gwella medrau rhesymu disgyblion. Mae hyn wedi gwella deilliannau mewn mathemateg ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni'r holl ofynion statudol. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, drwy adroddiadau manwl gan y pennaeth a'u hymweliadau rheolaidd. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o gryfderau presennol yr ysgol a meysydd i'w gwella. Maent yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac yn dechrau datblygu'u rôl monitro trwy gyfranogi mewn teithiau dysgu â ffocws ac arfarnu eu harsylwadau gyda staff.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'n gweithio'n effeithiol iawn fel cymuned dysgu proffesiynol ac mae wedi arwain ysgolion cynradd rhanbarthol yn llwyddiannus wrth ddatblygu offeryn hunanarfarnu effeithiol i wella asesiadau ar-lein.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu'r ysgol yn gadarn, yn cynnwys pob un o'r staff ac yn defnyddio ystod eang o ddata, craffu ar lyfrau ac arsylwi ar wersi. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i dueddiadau perfformiad dros gyfnod, yn enwedig perfformiad grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Mae'n nodi cryfderau a ffyrdd ymlaen yn fedrus, ac mae'r dadansoddi yn cysylltu'n uniongyrchol â'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol effeithiol yn rhoi manylion graddfeydd amser perthnasol, personél allweddol , trefniadau monitro a chostau yn gryno. Mae'r gwaith o adolygu a monitro'r targedau a'r camau gweithredu yn y ddogfen hon wedi'i sefydlu'n dda ac yn nodi effaith mentrau yn llwyddiannus ar godi safonau ar gyfer pob disgybl. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gallu nodi blaenoriaethau penodol, perthnasol ar gyfer datblygu'r ysgol yn y dyfodol.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi sefydlu amserlen bwrpasol â ffocws o weithgareddau hunanarfarnu. Mae pob un o'r staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, yn cyfranogi'n weithgar mewn arsylwadau o wersi cymheiriaid. Mae hyn wedi llwyddo i ddatblygu diwylliant lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol. Mae staff yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at y broses hunanarfarnu drwy arfarnu eu perfformiad eu hunain a nodi meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol at gynllun datblygu'r ysgol gyfan a thargedau rheoli perfformiad unigol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni. Mae cymdeithas rieni weithgar yn cefnogi'r ysgol yn dda ac mae wedi cyfrannu'n ariannol at ddarparu offer chwarae awyr agored ar gyfer disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas dda ag ystod eang o bartneriaid yn y gymuned leol sy'n cyfrannu at wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaeth lwyddiannus iawn gyda chwmni adeiladu lleol sydd wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr at ddatblygu'r ardal awyr agored ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn wedi darparu'r cyfle i ddisgyblion archwilio bywyd gwyllt mewn gwesty chwilod ac i blannu a thyfu eu llysiau eu hunain yn ardal y rhandir.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol wedi gweithio'n dda gyda chwmni bwyd cydweithredol lleol. Maent wedi cymryd perchenogaeth o'r cyfrifoldeb am gasglu'r archebion ffrwythau a llysiau gan rieni a staff. Maent yn archebu'r bwyd o'r siop leol, yn trefnu taliadau ac yn dosbarthu'r nwyddau. Mae'r profiad gwerth chweil hwn yn fuddiol o ran datblygu'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith a phwysigrwydd diet iach.

Mae gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau'r awdurdod lleol a chlystyrau o ysgolion yn effeithiol. Mae athrawon yn cydweithredu'n bwrpasol i safoni gwaith disgyblion ac i rannu arfer dda, gan arwain at welliannau yn ansawdd y dysgu. Mae disgyblion yn elwa ar ystod dda o weithgareddau cwricwlwm yn ystod wythnosau pontio gyda'r ysgolion uwchradd lleol. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddo hwylus i'r cam nesaf o ddysgu'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff profiadol â chymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn effeithiol i fodloni anghenion disgyblion ac i wneud y defnydd gorau o arbenigedd staff. Mae pob un o'r athrawon a chynorthwywyr addysgu yn elwa ar raglen gynhwysfawr a pherthnasol o ddatblygiad proffesiynol, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o’r cyllid sydd ar gael iddi ac mae’n rheoli ei chyllideb yn dda.  Mae cysylltiadau nodedig rhwng dyrannu cyllid yn effeithlon a’r gwelliant mewn deilliannau disgyblion.  Mae’r mannau dan do ac awyr agored wedi’u trefnu yn dda ac yn bodloni anghenion y disgyblion yn effeithiol.  Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o’r grant amddifadedd disgyblion i wella deilliannau ar gyfer disgyblion targedig, er enghraifft, drwy ariannu’r ddarpariaeth technoleg ddigidol i ddatblygu medrau llefaredd a lles disgyblion.

Mae rhwydweithiau datblygu proffesiynol yn yr ysgol a gyda phartneriaid wedi’u datblygu’n dda ac maent yn cael effaith fuddiol ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau ar gyfer disgyblion.

O ystyried y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, ansawdd gyson y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth effeithiol, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6772277 - Ysgol Gynradd Beaufort Hill**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 246 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 31 | 31 | 33 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 90.3 | 83.9 | 93.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 31 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.8 | 90.3 | 97.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 32.3 | 12.9 | 21.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 31 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.5 | 83.9 | 93.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.1 | 9.7 | 9.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 31 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.5 | 96.8 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 22.6 | 25.8 | 18.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6772277 - Ysgol Gynradd Beaufort Hill**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 246 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.8 |
| Grŵp PYD | 3 (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 32 | 29 | 29 | 27 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 87.5 | 89.7 | 79.3 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 29 | 29 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 89.7 | 82.8 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 43.8 | 34.5 | 31.0 | 48.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 29 | 29 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.8 | 96.6 | 79.3 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.1 | 34.5 | 27.6 | 18.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 32 | 29 | 29 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.8 | 96.6 | 89.7 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 13.8 | 37.9 | 7.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 99<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 100 | 89<br>89%<br>92% | 11<br>11%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 100 | 98<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 94<br>94%<br>97% | 6<br>6%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 86<br>86%<br>96% | 14<br>14%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 100 | 99<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 99 | 98<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 100 | 99<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 100 | 85<br>85%<br>91% | 15<br>15%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 100 | 95<br>95%<br>95% | 5<br>5%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 100 | 67<br>67%<br>77% | 33<br>33%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 100 | 69<br>69%<br>84% | 31<br>31%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 28 | 13 | 13 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 46% | 46% | 7% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 28 | 18 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 28 | 16 | 11 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 57% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 25 | 10 | 15 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 40% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 27 | 8 | 15 | 3 | 1 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 30% | 56% | 11% | 4% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 26 | 8 | 16 | 2 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 31% | 62% | 8% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 27 | 12 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 44% | 56% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 22 | 6 | 12 | 3 | 1 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 27% | 55% | 14% | 5% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 26 | 11 | 12 | 3 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 42% | 46% | 12% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 26 | 10 | 13 | 3 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 38% | 50% | 12% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 28 | 12 | 15 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 43% | 54% | 4% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 18 | 6 | 12 | 0 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 33% | 67% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 28 | 6 | 11 | 9 | 2 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 21% | 39% | 32% | 7% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 28 | 15<br>54% | 11<br>39% | 2<br>7% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 24 | 10<br>42% | 10<br>42% | 4<br>17% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 9<br>35% | 16<br>62% | 1<br>4% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 18 | 7<br>39% | 10<br>56% | 1<br>6% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 27 | 10<br>37% | 14<br>52% | 3<br>11% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 27 | 12<br>44% | 14<br>52% | 1<br>4% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Erica Lonsdale | Arolygydd Tîm |
| Sarah Botterill | Arolygydd Lleyg |
| James Ridley | Arolygydd Cymheiriaid |
| Phillip Brookman | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.